



ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED

Ynghylch y cynigion i drawsnewid addysg uwchradd cyfrwng Saesneg yn y Barri drwy:

1. Sefydlu dwy ysgol gyfun gymysg newydd cyfrwng Saesneg i fyfyrwyr 11-18 oed ar safleoedd presennol Ysgol Gyfun y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren;
2. Sefydlu chweched dosbarth ar y cyd, a ddarperir ar draws y ddwy ysgol;
3. Cau'r ysgolion 'un rhyw' cyfrwng Saesneg presennol sydd yn y Barri, sef Ysgol Gyfun y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren.

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fformatau eraill o ofyn amdanynt

Cysylltwch â ni drwy ffonio 01446 709727 i drefnu hynny.

Cynnwys	Tudalen
1. Cyflwyniad	3
2. Y cyd-destun cenedlaethol	4
3. Y cyd-destun lleol o ran polisi	4
4. Yr effaith ar y gymuned	5
Dalgylch	5
Cyfleusterau/gweithgareddau'r ysgolion presennol	6-8
Materion yn ymwneud â thraffig/llwybrau cerdded	8-9
5. Casgliad	9-10

1. Cyflwyniad

Mae'r Cyngor yn cynnig y dylai ysgolion uwchradd yn y Barri gael eu trawsnewid drwy sefydlu dwy ysgol gyfun gymysg newydd cyfrwng Saesneg ar gampws presennol Ysgol Gyfun y Barri a champws presennol Ysgol Gyfun Bryn Hafren. At hynny, mae'r Cyngor yn cynnig creu chweched dosbarth ar y cyd a gaiff ei arwain gan un pennaeth chweched dosbarth, lle caiff cyrsiau eu cynnig ar y ddau gampws.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar wahân yn ystod yr haf, a oedd yn cynnig ymestyn y cyfleusterau yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg er mwyn bodloni'r galw am leoedd i ddisgyblion mewn darpariaeth addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. Nid yw'r ddau gynnig yn gysylltiedig â'i gilydd a byddant yn symud ymlaen ar wahân i'w gilydd.

Comisiynodd y Cyngor raglen ymgysylltu gynhwysfawr er mwyn deall dyheadau pobl leol ar gyfer dyfodol addysg uwchradd. Cynhaliwyd cyfres o grwpiau ffocws gyda disgyblion, athrawon, undebau a llywodraethwyr o'r ddwy ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg sydd yn y Barri yn ystod gwanwyn 2016. Cafodd arolwg rhieni a chymunedau ei gwblhau gan rieni'r ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg a rhieni/gwarcheidwaid yr ysgolion sy'n bwydo'r ysgolion uwchradd. Ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r arolwg hefyd.

Er mwyn sefydlu dwy ysgol gymysg, cynigir y dylai'r Cyngor gau Ysgol Gyfun y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren ac agor dwy ysgol uwchradd gymunedol gymysg newydd ar safleoedd presennol yr ysgolion. Ni fydd bwlch o ran amser rhwng cau ac agor yr ysgolion.

Bydd y ddwy ysgol dan sylw'n ysgolion newydd, felly bydd gan bob ysgol gorff llywodraethu newydd. Bydd y corff hwnnw'n cael ei sefydlu fel corff llywodraethu dros dro i ddechrau, cyn bod y ddwy ysgol newydd yn cael eu hagor yn swyddogol ar 1 Medi 2018. Rôl gyntaf y cyrff llywodraethu dros dro fydd hysbysebu swydd Pennaeth a recriwtio Pennaeth. Cyrff llywodraethu dros dro'r ddwy ysgol newydd fydd yn gyfrifol am benodi'r ddau Bennaeth.

Gan fod y ddwy ysgol yn rhannu'r un dalgylch ar hyn o bryd, bydd dau ddalgylch newydd yn cael eu sefydlu. Mae gwybodaeth bellach am y dalgylchoedd newydd arfaethedig i'w gweld yn y Ddogfen Ymgynghori sydd ar-lein ar: www.valeofglamorgan.gov.uk/ysgolionybarri

Bydd y broses drawsnewid arfaethedig yn:

- Creu ysgol gyfun gymunedol gymysg newydd cyfrwng Saesneg i fyfyrwyr 11-18 oed, a fydd yn cynnig 1,100 o leoedd, ar safle Ysgol Gyfun y Barri. Nifer derbyn yr ysgol fydd 180.
- Creu ysgol gyfun gymunedol gymysg newydd cyfrwng Saesneg i fyfyrwyr 11-18 oed, a fydd yn cynnig 1,100 o leoedd, ar safle Ysgol Gyfun Bryn Hafren. Nifer derbyn yr ysgol fydd 180.

- Creu chweched dosbarth ar y cyd newydd. Bwriedir i'r ddwy ysgol arbenigo mewn agwedd benodol ar addysg ôl-16.
- O 2019 ymlaen, yn amodol ar gyllid gan Lywodraeth Cymru, adeiladu ysgol newydd ar safle presennol Ysgol Gyfun y Barri a buddsoddi'n sylweddol yn y cyfleusterau presennol ar safle Ysgol Gyfun Bryn Hafren.

Bwriad y Cyngor yw bod y ddwy ysgol newydd cyfrwng Saesneg yn agor ym mis Medi 2018.

Mae Ysgol Gyfun y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren yng ngogledd y Barri. Mae 1.253 milltir rhyngddynt o deithio ar hyd y ffordd, ac 1.023 milltir fel yr hed y frân.

2. Y cyd-destun cenedlaethol

Mae'r prif ganllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol ynghylch datblygu cynigion statudol i newid trefniadaeth ysgolion yn cyd-fynd ag adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2013. Wrth ystyried cynigion rhaid i'r awdurdod ystyried yr effaith ar y gymuned leol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd a ddynodwyd ar gyfer rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf neu raglenni olynol.

3. Y cyd-destun lleol o ran polisi

Gan adleisio'r polisi cenedlaethol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'r Cyngor wedi ymrwymo, yn rhan o'i Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2016-20, i gyflawni gweledigaeth sy'n seiliedig ar greu **'Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair'**.

Mae Bro Morgannwg wedi ymrwymo i gyflawni'r amcan o greu 'Bro Uchelgeisiol' sy'n codi safonau cyffredinol cyflawniad drwy foderneiddio addysg yn y Fro er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael addysg o'r radd flaenaf.

Er mwyn cyflawni hynny, rydym o'r farn ei bod yn bwysig i ni hybu gwaith addysgu a deilliannau dysgu drwy ddarparu adeiladau modern ac addas i'w diben sy'n diwallu anghenion addysg yn yr oes sydd ohoni. Mae angen i ysgolion allu darparu'r profiad dysgu gorau posibl er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cyfleoedd gorau posibl a'u bod yn gallu gwireddu eu potensial yn llawn.

4. Yr effaith ar y gymuned

Dalgylch

Mae Ysgol Gyfun y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren yn ysgolion cymunedol, ac mae gan y ddwy ysgol ardal y maent yn ei gwasanaethu, a elwir yn ddalgylch. Gall y ddwy ysgol groesawu disgyblion o'r dalgylch, a rhaid i'r Awdurdod ystyried y galw parhaus hwn. Mae gan rieni hawl i ddatgan pa ysgol y maent yn ei ffafrio. Mae dymuniad rhieni yn effeithio'n fawr ar nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion, ac mae'n amlwg bod disgyblion yn symud gryn dipyn rhwng dalgylchoedd ysgolion uwchradd ar draws dwyrain y Fro. Mae llawer o'r plant sy'n byw yn y Barri yn mynychu ysgolion y tu allan i'r ardal leol.

Mae'r tabl canlynol yn dangos yr effaith y mae dymuniad rhieni, a'r ffaith bod disgyblion yn symud rhwng dalgylchoedd, yn ei chael ar yr ysgolion.

Plant sy'n byw yn nalgylchoedd Ysgol Gyfun y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren (gan gynnwys y Rhws)						
Y Barri / Bryn Hafren	Y Bont- faen	Llanilltud Fawr	Sant Cyres	Stanwell	Sant Richard Gwyn	Bro Morgannwg
926 / 863	110	152	183	212	634	529

Dadansoddiad o ddalgylchoedd Ysgol Gyfun y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren

Mae Ysgol Gyfun y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren yn rhannu'r un dalgylch sy'n cynnwys ardaloedd y Barri, y Rhws a Gwenfô. Mae ardal y Rhws yn bwydo dwy ysgol ac yn bwydo Ysgol Llanilltud Fawr hefyd.

Ym mis Ionawr 2016, roedd 3,609 o ddisgyblion oedran uwchradd (11-19 oed) yn byw yn nalgylch dynodedig yr ysgolion o gymharu â chapasiti'r ddwy ysgol gyda'i gilydd, sef 2,754 o ddisgyblion.

O ddalgylch yr ysgolion:

- Mae 1,789 o ddisgyblion cyfrwng Saesneg (49.6%) yn mynychu Ysgol Gyfun y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren
- Mae 529 o ddisgyblion (14.66%) yn mynychu Ysgol Gyfun Bro Morgannwg
- Mae 634 o ddisgyblion (17.57%) yn mynychu ysgol uwchradd enwadol Sant Richard Gwyn
- Mae 505 o ddisgyblion (14%) yn mynychu ysgolion uwchradd yn ardaloedd y Bont-faen a Phenarth
- Mae 152 o ddisgyblion (4.2%) yn mynychu Ysgol Llanilltud Fawr.

Mae dalgylch yr ysgolion yn cynhyrchu digon o ddisgyblion i fodloni'r galw am leoedd cyfrwng Saesneg, ar ôl ystyried y galw am leoedd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac ysgolion enwadol.

Ystyried yr effaith ar y gymuned

Drwy ddatblygu cyfleusterau newydd a chyfleusterau wedi'u hadnewyddu ar y ddau safle, nod y Cyngor yw gwella ac ehangu'r cyfleusterau y gall y gymuned eu defnyddio.

Bydd y ddwy ysgol yn sicrhau eu bod, wrth i'r cyfleusterau newydd gael eu datblygu, yn parhau i gynnig gweithgareddau i fyfyrwyr y tu allan i oriau ysgol. Yn rhan o'r gwaith dylunio ac adnewyddu a fydd yn gysylltiedig â'r ysgolion newydd, ystyrir y math o gyfleusterau a fydd ym mhob lleoliad a'r modd y gallant ategu'r cyfleusterau sy'n bodoli eisoes ar draws tref y Barri yn ei chyfanrwydd. Bydd y ddwy ysgol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gan y gymuned fynediad teg i'r cyfleusterau hyn ar gyfer digwyddiadau a gynhelir ar ôl yr ysgol.

Cyfleusterau/gweithgareddau'r ysgolion presennol

Ysgol Gyfun y Barri

Mae Ysgol Gyfun y Barri yn cynnig yr ystod ganlynol o weithgareddau a chlybiau ar ôl ysgol i ddisgyblion, y tu allan i oriau ysgol:

- Clybiau gwaith cartref
- Clybiau chwaraeon
- Cynllun Gwobr Dug Caeredin
- Clybiau adolygu
- Cyfleusterau canolfan chwaraeon.

Mae'r ysgol yn cynnig ei chyfleusterau i'r sefydliadau a'r mudiadau lleol canlynol:

- Clwb Rygbi Sea View
- Clybiau pêl-droed/twrnameintiau pêl-droed lleol
- Diwrnodau o hwyl i'r gymuned
- Clwb Golff Brynhill
- Cyfarfodydd ymgynghori
- Ffeiriau gyrfaoedd.

Defnyddir maes parcio'r ysgol fel cyfleuster parcio ychwanegol ar gyfer Maes Awyr Caerdydd pan fydd angen.

Yn ystod y diwrnod ysgol, mae nifer o asiantaethau'n gweithio gyda'r ysgol i gynorthwyo disgyblion a rhieni / gofalwyr, gan gynnwys y canlynol:

Cymorth i ddisgyblion

- Prosiect Ieuenctid Penarth
- Grwpiau hwyluso gan gymheiriaid PULSE (tîm gwaith ieuenctid)
- V POD (mudiad ieuenctid gwirfoddol a chlwb ieuenctid symudol)
- Prosiect 'Can Do' sy'n cynnig cymorth i bobl ifanc nad oes ganddynt lawer o hunan-barch.

Cymorth i rieni / gofalwyr

- Grŵp rhianta, gan gynnwys canolfan 'galw heibio' i rieni
- Prosiect 'Can Do' sy'n cynnig cymorth i'r sawl nad oes ganddynt lawer o hunan-barch
- Rhaglen Ymddiriedolaeth y Tywysog
- Up2U – sy'n cynnig cymorth i'r sawl sy'n camddefnyddio sylweddau.

Bwriedir i'r holl gyfleusterau presennol ar gyfer plant, rhieni a'r gymuned barhau os bydd yr ysgolion yn newid i fod yn ysgolion cymysg.

Ysgol Gyfun Bryn Hafren

Mae Ysgol Gyfun Bryn Hafren yn cynnig yr ystod ganlynol o weithgareddau a chlybiau ar ôl ysgol i ddisgyblion, y tu allan i oriau ysgol:

- Clybiau gwaith cartref
- Clybiau chwaraeon
- Cynllun Gwobr Dug Caeredin
- Clybiau adolygu
- Rhaglen 5x60 i ddisgyblion er mwyn iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon ac ymarfer corff allgyrsiol yn rheolaidd
- Gweithgareddau 'Parthau Ymlacio'.

Mae'r ysgol yn cynnig ei chyfleusterau i'r sefydliadau a'r mudiadau lleol canlynol:

- Cyfleusterau pob tywydd o ddydd Llun i ddydd Gwener ar gyfer clybiau pêl-droed a hoci
- Cyfleusterau rygbi
- Clwb Pêl-droed Caerdydd a'r Fro ar ddydd Sadwrn
- Ffeiriau gyrfaeodd.

Yn ystod y diwrnod ysgol, mae nifer o asiantaethau'n gweithio gyda'r ysgol i gynorthwyo disgyblion a rhieni / gofalwyr, gan gynnwys y canlynol:

Cymorth i ddisgyblion

- Prosiect Ieuenctid Penarth
- Grwpiau hwyluso gan gymheiriaid PULSE (tîm gwaith ieuenctid)
- V POD (mudiad ieuenctid gwirfoddol a chlwb ieuenctid symudol)

- Prosiect 'Can Do' sy'n cynnig cymorth i bobl ifanc nad oes ganddynt lawer o hunan-barch.

Cymorth i rieni / gofalwyr

- Grŵp rhianta, gan gynnwys canolfan 'galw heibio' i rieni
- Prosiect 'Can Do' sy'n cynnig cymorth i'r sawl nad oes ganddynt lawer o hunan-barch
- Rhaglen Ymddiriedolaeth y Tywysog
- Up2U – sy'n cynnig cymorth i'r sawl sy'n camddefnyddio sylweddau.

Bwriedir i'r holl gyfleusterau presennol ar gyfer plant, rhieni a'r gymuned barhau os bydd y ddwy ysgol yn newid i fod yn ysgolion uwchradd cymysg.

Materion yn ymwneud â thraffig/llwybrau cerdded

Dan y cynigion hyn, ni fwriedir newid polisi'r Cyngor ar gludo plant rhwng eu cartref a'u hysgol. Bydd safleoedd presennol Ysgol Gyfun y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren yn parhau'n weithredol dan y cynnig.

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant ysgol am ddim i ddisgyblion o oedran ysgol statudol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded o'u hysgol addas agosaf. Nid yw'r Cyngor yn darparu cludiant ysgol am ddim i blant oedran meithrin, ar wahân i'r plant hynny sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig.

Y diffiniad o bellter cerdded yw dros 2 filltir i'r ysgol addas agosaf ar gyfer disgyblion ysgol gynradd, a thros 3 milltir ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd. Caiff pellteroedd eu mesur gan y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

Ni fydd y llwybrau cerdded diogel sydd ar gael i ysgolion, a ddefnyddir er mwyn asesu cludiant ysgol am ddim, yn newid o ganlyniad i'r cynnig hwn ond mae'n bosibl na fydd rhai myfyrwyr yn gymwys mwyach i gael cludiant ysgol am ddim. Bernir bod pob llwybr cerdded yn y Barri ac o ardal Gwenfô yn llwybrau cerdded diogel sydd ar gael at ddiben asesu cludiant ysgol am ddim.

Nid yw'r cynnig hwn yn effeithio mewn unrhyw fodd ar y llwybrau cerdded diogel sydd ar gael er mwyn i ddisgyblion gyrraedd yr ysgolion.

Ar hyn o bryd, caiff cludiant ysgol am ddim ei ddarparu i Ysgol Gyfun y Barri o'r Rhws a Gwenfô, ac i Ysgol Gyfun Bryn Hafren o'r Rhws ac Ynys y Barri. Bydd y newid mewn dalgylchoedd yn effeithio ar hynny.

Oherwydd y newidiadau i ddalgylchoedd, bydd cymhwysedd disgyblion i gael cludiant ysgol yn cael ei adolygu. Dylai pob plentyn fod yn byw o fewn pellter cerdded o 3 milltir i ysgol y dalgylch, ac eithrio disgyblion sy'n byw yn y Rhws a Heol Collen, Parc y Gwenfô.

Mae asesiadau traffig cychwynnol yn dangos y gallai'r cynnydd posibl mewn traffig yn sgîl y datblygiadau tai yng Nglannau'r Barri, y Rhws a Gwenfô olygu mwy o draffig ar y ffyrdd o gwmpas campws Ysgol Gyfun y Barri a champws Ysgol Gyfun Bryn Hafren. Mae gan y ddwy ysgol ddigon o gyfleusterau parcio a chylchoedd troi i ymdopi â mwy o draffig, ond mae'n bosibl y bydd y rhain yn cael eu gwella'n rhan o'r prosiect. Mae'r isadeiledd ar gyfer cerdded a beicio er mwyn cyrraedd y ddau gampws yn dda.

Bydd y goblygiadau o ran traffig a thrafnidiaeth yn cael eu cynnwys yn rhan o'r asesiad trafndiaeth a fydd yn ofynnol er mwyn cael caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith adeiladu, pe bai'r cynigion hyn yn cael eu gweithredu.

Mae diogelwch plant o'r pwys mwyaf, ac mae wedi'i ystyried cyn cyflwyno'r cynnig i gyfuno'r ddwy ysgol. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda chyrrff llywodraethu'r ysgolion cyn, yn ystod ac ar ôl y cyfnod pontio er mwyn datblygu cynlluniau teithio i sicrhau bod cyn lleied ag sy'n bosibl o darfu'n digwydd.

5. Casgliad

Mae gan dre'r Barri boblogaeth niferus, ac mae disgyblion yn symud gryn dipyn rhwng yr ysgolion sy'n gwasanaethu'r dref. Mae 14% o'r rhieni sy'n byw yn yr ardal yn dewis anfon eu plant i ysgolion uwchradd yn ardaloedd y Bontfaen a Phenarth.

Bydd trawsnewid safleoedd presennol Ysgol Gyfun y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren yn ddau gampws ar gyfer ysgolion uwchradd cymysg cyfrwng Saesneg yn darparu cyfleusterau modern ac addas i'r 21^{ain} ganrif ac yn darparu ystod eang o gyfleoedd i'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion, yn ogystal â'r gymuned leol yn ei chyfanrwydd.

Ar hyn o bryd, mae'r ddwy ysgol yn cynnig ystod o weithgareddau i ddisgyblion y tu allan i oriau ysgol, ac mae asiantaethau'n cynnig cymorth i ddisgyblion yn ystod oriau ysgol. Mae'r ddwy ysgol yn cynnig eu cyfleusterau i'r gymuned leol, ac yn eu tro mae'r ysgolion yn defnyddio cyfleusterau cymunedol megis eglwysi a chyfleusterau chwaraeon lleol yn ystod y flwyddyn ysgol. Bwriedir y bydd o leiaf yr holl gyfleusterau presennol sydd ar gael i rieni'r disgyblion a'r gymuned yn parhau i gael eu darparu pan fydd yr ysgolion yn newid eu cymeriad.

Bydd asesiad trafndiaeth yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno yn rhan o'r cais cynllunio, a bydd yn tynnu sylw at unrhyw welliannau y gallai fod angen eu gwneud i'r priffyrdd er mwyn gweithredu'r cynnig.

Casgliad yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yw y bydd y cynnig i ddatblygu dwy ysgol uwchradd gymunedol gymysg cyfrwng Saesneg ar ddau gampws yr ysgolion presennol:

- Yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol ar y gymuned. Ni fydd yn cael unrhyw effaith amlwg ar gyfleusterau cymunedol neu leol presennol yn yr ardal. Bydd y cynnig yn gwella cyfleusterau ac yn hybu rhagor o gyfleusterau ar gyfer y gymuned leol a'r plant a fydd ar y ddau gampws.
- Yn darparu amgylcheddau dysgu gwell i ddisgyblion yn yr ysgolion, ac yn mynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig ag adeiladau'r ysgolion presennol. Gallai cyfleusterau cymunedol gael eu gwella o ganlyniad i'r cynnig.
- Yn golygu y bydd yr holl lwybrau cerdded yn y Barri ac o ardal Gwenfô yn llwybrau cerdded diogel a fydd ar gael er mwyn i ddisgyblion gyrraedd yr ysgolion. Efallai na fydd rhai disgyblion yn gymwys mwyach i gael cludiant ysgol am ddim o ganlyniad i newidiadau i ddalgylch yr ysgol, ond bydd ganddynt lai o bellter i'w deithio er mwyn cyrraedd eu hysgol leol.